# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

## Cofnodion (LC2(3)-21-09)

**Dyddiad: 26 Tachwedd 2009**
**Amser: 13.00 - 13.31**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili
Gareth Jones, Aberconwy
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Sarah Beasley, Clerc
Sarah Sargent, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol
### Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Sesiwn breifat
Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'i drafodaethau, mewn unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol, ynghylch argymhellion allweddol ei adroddiad ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009, yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### Eitem 2: Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009 - ystyried yr adroddiad drafft

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod, ac, yn amodol ar fewnosod tystiolaeth bellach ar y term 'sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau', cytunodd ar yr adroddiad drafft.